

Cofion

Parhawn i gofio'r cleifion yn ein plith – Mari Jones (Llansannan) a Gwyneth Rawson (Llanfair) yn Ysbyty Glan Clwyd; Dilys Vaughan (Saron) yn yr Inffirmari; a Gwenllian Jones (Henllan) yn Ysbyty Gymunedol Yr Wyddgrug. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i'r pedair ohonynt a phawb arall sydd heb fod yn teimlo cystal eu hiechyd ar hyn o bryd. Hyderwn y byddant yn profi daioni Duw yn eu cynnal a'u gwarchod y dyddiau hyn.

Arian Sasiwn y Chwiorydd

Gair i'ch atgoffa y bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn eich cyfraniad tuag at gasgliad Sasiwn y Chwiorydd, os gwelwch yn dda.

Nodyn i'r Trysoryddion: A wnewch chi anfon yr arian i Mair (gydag unrhyw sic yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled') CYN Ebrill 1af, os gwelwch yn dda?

I ddod

- **CWRDD CHWARTER CYFUNDEB GORLLEWIN DINBYCH A FFLINT** yn cyfarfod yn Festri Capel Lôn Swan, Dinbych nos Iau, Mawrth 22ain am 7.00. Cyn delio â'r materion gwaith, bydd Rhodri Darcy, Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, yn rhoi rhagarweiniad ar ddefnyddio "Technoleg yn yr Eglwys".
- **CYMDEITHAS CAPEL SARON** – Noson gyda Wil Tân yng Nghlwb Rygbi Dinbych, nos Sadwrn, Mawrth 24ain. Tocyn £10 yn cynnwys bwyd. Tocynnau ar gael gan aelodau'r capel neu Emyr Rees (01745) 550261.
- **MYFYRDOD Y PASG** yn Festri Capel Henllan nos Fawrth, Mawrth 27ain am 7.30.
- **OEDFA BORE'R GROGLITH I'R FRO** – Oedfa gymun yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn bore Gwener, Mawrth 30ain am 10.30.
- **LLANW** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yng Nghydweli rhwng Ebrill 2il-5ed gyda phrif weithgareddau'r ŵyl yn cael eu cynnal yng Nghanolfan y Dywysoges Gwenllian yng Nghydweli. Am fwy o fanylion: www.llanw.org
- **WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Ebrill 7fed-12fed. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: www.wordaliveevent.org
- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** – Noson Gymdeithasol yn Festri Capel Mawr, Dinbych nos Fercher, Ebrill 11eg am 7.00 yng nghwmni Elin Bryn Williams. Darperir lluniaeth ysgafn am bris rhesymol.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Seffaneia 3:14-20 (BCND tud.856 / BCN tud.780)

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 11^{eg} Mawrth 2018

Darlleniad y Dydd

Marc 12:28-34

(BCND tud.53 / BCN tud.49)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'n hoedfaon heddiw...a chymryd y byddwn yn gallu cyfarfod, nid fel y Sul diwethaf! Diolch i bawb fu wrthi'n llafurio yng nghanol yr eira, a gobeithio bod y cyfnod lle daeth cymaint o weithgareddau arferol i stop wedi bod yn gyfle i ni droi ein meddyliau at mor aruthrol yw ein Harglwydd – meddyliau a achosodd i'r Apostol Paul foli fel y gwelwn yn Rhufeiniaid 11:33 'O ddyfnder cyfoeth Duw, a'i ddoethineb a'i wybodaeth!'

Un peth wnaeth fy nharo yng nghanol helbul yr wythnos diwethaf oedd cymaint o ddylanwad y mae rhywbeth mor syml â chyfeiriad y gwynt yn gallu ei gael ar fywyd rhywun! Yn ôl yr arbenigwyr, daeth y rhew, yr eira a'r oerfel difrifol atom (neu'r dihiryn o'r Dwyrain yng ngeiriau rhai sylwebwyr!) oherwydd bod y gwyntoedd wedi chwythu o'r Dwyrain gan ddod ag aer oer gyda hwy dros ynysoedd Prydain. Ac ar yr un pryd ymwelodd storm Emma â ni o gyfeiriad Môr yr Iwerydd, â'r cyfan gyda'i gilydd yn achosi hafoc! Er mor anarferol yw'r cyfuniadau hyn ym myd y tywydd, rydym yn deall yn iawn y gall patrymau fel hyn godi yn ein bywydau ni hefyd; un peth yn dylanwadu ar y llall gan achosi rhyw fath o effaith domino.

Nid yw'n annisgwyl felly fod llinyn amlwg o un peth yn dylanwadu ar y llall i'w weld yn y Beibl hefyd, ac mae hynny'n cael ei awgrymu'n gryf yng ngeiriau Iesu yn ein darlleniad ar y cyd heddiw. Mae Iesu yn cadarnhau dau o orchmynion yr Hen Destament wrth ateb yr ysgrifennydd ac mae'r gorchmynion hyn wedi eu nodi yn Deuteronomium 6:4-5 a Lefiticus 19:18. Wrth gyfuno'r ddau orchmyn, mae Iesu yn dangos nad oes modd gwahanu'r ddwy agwedd hyn o fywyd y crediniwr oddi wrth ei gilydd. Ni all neb garu Duw heb garu ei gymydog, ac ni all rhywun garu ei gymydog heb garu Duw. Ac yn fwy sylfaenol na hynny hyd yn oed, mae'r cariad sy'n cael ei orchmyn i'r credinwyr tuag at Dduw a chymdogion yn gariad sy'n deillio o gariad blaenorol Duw tuag at ei bobl. 'Yr ydym ni'n caru, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni.' (1 Ioan 4:19)

Ac felly mae'r gorchmyn i garu Duw â'n holl galon, enaid, meddwl a nerth yn cael ei roi oherwydd bod Duw wedi caru ei bobl yn llwyr yn barod – cymaint felly nes iddo roi ei Fab i farw drostynt (Rhufeiniaid 5:8). Oherwydd hyn, ymateb i gariad Duw a wna'r Cristion trwy ymrwymo'n llwyr mewn cariad i Grist trwy nerth yr Ysbryd Glân. Ac mae caru Duw â phopeth sydd gennym yn naturiol yn arwain at ufuddhau i'w orchmynion, a charu pobl eraill (ein cymdogion) 'nid ar air nac ar dafod ond mewn gweithred a gwirionedd.' (1 Ioan 3:18)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 11^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 13^{eg} ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Mercher – 14^{eg} ➤ **Torri Syched y dynion** – seiat yn Heulfryn am 7.30.
➤ **Torri Syched y merched** – seiat yn nhŷ Elen am 7.30.
- Iau – 15^{fed} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
➤ **CIC + (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion)** ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.
➤ **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Gellifor am 6.00. Ni fydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod.
- Sadwrn – 17^{eg} ➤ **Ysgol Sadwrn DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ am 10.00.
- Sul nesaf – 18^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Gwion yn pregethu.

Llanfair a Cefn Meiriadog

- Sul yma – 11^{eg} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Bydd Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth – 13^{eg} ➤ Cinio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 18^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 11^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mawrth – 13^{eg} ➤ Bydd Chwirydd Peniel, Groes a Nantglyn yn cyfarfod ym Mheniel am 7.30 pryd y bydd Angharad Rhys, Dinbych yn sgwrsio ac yn arddangos ei gwaith crefft.
- Mercher – 14^{eg} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW (11^{eg})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 18^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deulu yn Llansannan am 10.00. Ni fydd Ysgol Sul heddiw.
➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 11^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Mawrth – 13^{eg} ➤ Cynhelir Cyfarfod Chwirydd Peniel, Groes a Nantglyn ym Mheniel am 7.30 pryd y bydd Angharad Rhys, Dinbych yn sgwrsio ac yn arddangos ei gwaith crefft.
- Sul nesaf – 18^{fed} ➤ Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 11^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Mawrth – 13^{eg} ➤ Cynhelir Cyfarfod Chwirydd Peniel, Groes a Nantglyn ym Mheniel am 7.30 pryd y bydd Angharad Rhys, Dinbych yn sgwrsio ac yn arddangos ei gwaith crefft.
- Sul nesaf – 18^{fed} ➤ Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r plant a'r oedolion yn Groes am 10.00, a bydd Ysgol Sul yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Cefn Berain

- Sul yma – 11^{eg} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg. Yn ystod y gwasanaeth yng Nghefn Berain, bydd yr eglwys yn gofyn, trwy bleidlais gudd, farn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.
- Gwener – 16^{eg} ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **HEDDIW (11^{eg})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 18^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu i'r daith ac yn gweinyddu'r cymun yn Llanefydd am 10.00. Bydd paned i bawb ar ddiwedd y gwasanaeth a chyfle i brynu nwyddau o stondin Masnach Deg dan ofal plant yr Ysgol Sul. Byddwn hefyd yn ddiolchgar o dderbyn nwyddau tuag at y Banc Bwyd yn Ninbych.

Manylion Cyswilt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.